P2223-309

# Gweithdrefn ar gyfer Adrodd am Ddigwyddiadau Difrifol wrth y Comisiwn Elusennau

## 1. Cyflwyniad

Mae Prifysgol Abertawe wedi bod yn elusen gofrestredig ers mis Hydref 2010 (rhif elusen 1138342). Felly, mae'n atebol i'r Comisiwn Elusennau a rhaid iddi gydymffurfio â'i ganllawiau. Mae gan y Brifysgol gyfrifoldeb i hysbysu'r Comisiwn Elusennau am yr holl ddigwyddiadau difrifol, yn brydlon ac yn gyflawn, hyd yn oed os yw eisoes wedi adrodd amdanynt wrth yr heddlu neu reoleiddwyr eraill.

Mae Aelodau'r Cyngor, a hwythau’n Ymddiriedolwyr Prifysgol Abertawe, wedi cymeradwyo'r weithdrefn ganlynol, sy'n darparu canllawiau er mwyn adrodd am ddigwyddiadau difrifol wrth y Comisiwn Elusennau.

## 2. Cwmpas

Mae'r weithdrefn hon yn berthnasol i'r holl staff (beth bynnag yw natur eu cytundeb cyflogaeth), myfyrwyr y Brifysgol ac unrhyw unigolyn neu sefydliad arall sy’n gysylltiedig â'r Brifysgol.

## 3. Cyfrifoldebau a phwy sy'n gallu cyflwyno adroddiad

Cyngor y Brifysgol sy’n gyfrifol am adrodd am ddigwyddiadau difrifol wrth y Comisiwn Elusennau. Dirprwywyd y cyfrifoldeb hwn i Ysgrifennydd y Cyngor, a fydd yn rhoi gwybod i'r Cyngor cyn gynted ag y bo modd am unrhyw ddigwyddiad yr adroddwyd amdano wrth y Comisiwn Elusennau.

Os rhoddir gwybod i Ysgrifennydd y Cyngor am unrhyw ddigwyddiadau y gellid ystyried eu bod yn ddifrifol, ond nad ydynt wedi'u cynnwys yn y weithdrefn hon, fe'u trafodir â Chadeirydd y Cyngor, a fydd yn penderfynu a ddylid cyflwyno adroddiad i'r Comisiwn Elusennau ai peidio.

Dylid nodi nad yw hi'n bosib cynnwys yr holl bosibiliadau na bod yn hollgynhwysfawr, a chanllawiau'r Comisiwn Elusennau ddylai fod yn brif ganllaw wrth nodi a oes digwyddiad difrifol wedi digwydd: How to report a serious incident in your charity - GOV.UK (www.gov.uk)

## 4. Digwyddiadau difrifol i adrodd amdanynt

Mae'r Comisiwn Elusennau yn diffinio digwyddiad difrifol fel digwyddiad niweidiol, gwirioneddol neu honedig, sy'n arwain at y canlynol, neu risg o'r canlynol:

- niwed sylweddol i fuddiolwyr, staff, gwirfoddolwyr eich elusen neu eraill sy'n dod i gyswllt â'ch elusen drwy ei gwaith;
- colled sylweddol o ran arian neu asedau eich elusen;
- difrod sylweddoli i eiddo eich elusen;
- niwed sylweddol i waith neu enw da eich elusen.

Y prif gategorïau ar gyfer digwyddiadau y mae'n rhaid adrodd amdanynt wrth y Comisiwn Elusennau yw:

### 4.1 Digwyddiadau Amddiffyn Pobl a Diogelu

- Mae buddiolwr[1] neu unigolyn arall sy'n gysylltiedig â gweithgareddau'r elusen wedi honni/yn honni ei fod wedi dioddef niwed difrifol.
- Honiad neu enghraifft o ymddiriedolwr, aelod staff neu fuddiolwr yn ymosod yn rhywiol ar ymddiriedolwr, aelod staff neu fuddiolwr.
- Honiad neu enghraifft o ymddiriedolwr, aelod staff neu fuddiolwr yn ymosod yn rhywiol ar berson sy'n dod i gysylltiad â'r Brifysgol drwy ei gwaith, mewn cysylltiad â gweithgareddau'r Brifysgol.
- Delweddau o bornograffi plant ar gyfrifiadur aelod staff.
- Mae ymchwiliad mewnol yn canfod bod diwylliant eang o fwlio yn yr elusen.
- Mae buddiolwr neu unigolyn sy'n gysylltiedig â gweithgareddau'r Brifysgol wedi marw neu wedi'i anafu'n ddifrifol ar fangre dan berchnogaeth neu reolaeth y Brifysgol, ac mae methiant y Brifysgol i roi polisi perthnasol ar waith wedi cyfrannu'n sylweddol at hynny.
- Methu ymgymryd â gwiriadau’r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a fyddai wedi nodi bod aelod staff neu ymddiriedolwr yn anghymwys yn gyfreithiol (o dan ddeddfwriaeth ddiogelu) i gael rôl benodol yn y Brifysgol.

Yn dilyn yr uchod, dylid adolygu digwyddiadau diogelu o bob math yn ofalus i nodi a ddylid adrodd amdanynt yn unol â chanllawiau'r Comisiwn. Dylid nodi nad oes angen datgelu data personol trydydd parti i'r Comisiwn Elusennau (oni bai nad oes modd adrodd am ddigwyddiad heb wneud hynny), a dylid mynd i gryn drafferth i gydymffurfio â chanllawiau'r Comisiwn Elusennau yn hyn o beth.

### 4.2 Troseddau Ariannol

**Twyll, dwyn, seiberdroseddu a gwyngalchu arian**

- Pob enghraifft neu honiad o dwyll, dwyn, seiberdroseddu neu wyngalchu arian.
- Ymgais gan aelod staff i dwyllo a ataliwyd gan reolau mewnol.

[1] Buddiolwyr yw’r grŵp o bobl sy'n gymwys i elwa o waith y Brifysgol dan ei hamcanion yn y Siarter Frenhinol.

- Mae swm bach o arian yn mynd ar goll yn rheolaidd yn y Brifysgol, a drwgdybir ei fod yn cael ei ddwyn.
- Uwch-aelodau staff yn llunio anfonebau ffug ar gyfer gwasanaethau'r Brifysgol.
- Enw'r Brifysgol yn cael ei ddefnyddio i hyrwyddo gwasanaethau ffug (gan gynnwys ar-lein).
- Cyfrifiaduron/dyfeisiau electronig sy'n dal manylion personol buddiolwyr a rhoddwyr yn cael eu dwyn.

Yn unol â chanllawiau'r Comisiwn Elusennau, dylid hefyd adrodd am dwyll a seiberdroseddu wrth Action Fraud drwy ei offeryn adrodd ar-lein. Nid oes isafswm a gollir y dylid adrodd amdano. Bydd yn rhaid i'r Brifysgol benderfynu a yw digwyddiadau'n ddigon difrifol i adrodd amdanynt, yng nghyd-destun incwm y Brifysgol, gan ystyried y gwir niwed a'r risgiau posib.

### 4.3 Rhoddion a Chodi Arian

- Nid yw'r Brifysgol wedi cydymffurfio â gofynion cyfreithiol sy'n ymwneud â datganiadau eglurhaol, cytundebau cyfranogiad masnachol neu gytundebau codi arian proffesiynol.
- Mae rhodd gwerth dros £25,000 yn cael ei chynnig i'r Brifysgol o ffynhonnell anhysbys neu na ellir ei dilysu (nid yw hyn yn berthnasol i roddion gan unigolion sy’n adnabyddus i'r Brifysgol, ond sy'n dymuno i'r rhodd gael ei chofnodi fel un 'ddienw').

### 4.4 Colledion ariannol sylweddol eraill

- Colli mwy na £25,000 o gronfeydd y Brifysgol neu gronfeydd gwaddol o ganlyniad i fuddsoddiad gwael gan ymddiriedolwyr, heb gael cyngor proffesiynol.
- Colled sydyn o incwm na chyllidebwyd ar ei chyfer ac sy'n arwain at ddileu swyddi'n syth a dod â rhai gwasanaethau i ben.
- Colled sylweddol o gronfeydd y Brifysgol o ganlyniad i gostau cyfreithiol yn sgîl achos llys.
- Difrodi mangreoedd y Brifysgol mewn ffordd sy'n ei hatal rhag darparu ei gwasanaethau.
- Un o is-gwmnïau'r Brifysgol yn cael ei ddiddymu, gan arwain at anawsterau ariannol sy'n rhoi dyfodol y Brifysgol yn y fantol.
- Digwyddiadau arwyddocaol eraill, megis ansolfedd, gorfod tynnu gwasanaethau bancio yn ôl heb ddewis arall, neu ddigwyddiadau sy'n ymwneud â phartneriaid sy'n effeithio'n sylweddol ar yr elusen.

### 4.5 Cysylltiadau â therfysgaeth neu eithafiaeth

- Mae unigolyn sy'n gysylltiedig â gweithgareddau'r Brifysgol wedi cael ei arestio am droseddau sy'n gysylltiedig â therfysgaeth.
- Mae gan unigolyn sy'n gysylltiedig â'r Brifysgol gysylltiadau hysbys neu honedig â sefydliad gwaharddedig neu weithgarwch terfysgaidd/anghyfreithlon arall.
- Honnir bod gan un o sefydliadau partner y Brifysgol gysylltiadau â therfysgaeth ac eithafiaeth.

- Mae ymddiriedolwyr, aelodau staff neu fuddiolwyr wedi cael eu dal neu eu cipio gan grŵp terfysgaidd wrth gynrychioli'r Brifysgol neu wneud gwaith y Brifysgol.
- Mae siaradwr gwadd wedi defnyddio digwyddiad a gynhelir gan y Brifysgol i hyrwyddo negeseuon eithafol, er i'r Brifysgol gymryd camau i roi ei Chôd Ymarfer ar Ryddid i Lefaru ar waith.
- Defnyddiwyd cronfeydd neu asedau'r Brifysgol i dalu llwgrwobrwyon, arian i sgiâm amddiffyn, neu bridwerthoedd.
- Rhewir asedau unigolyn sy'n gysylltiedig â gweithgareddau'r Brifysgol.

### 4.6 Torri diogelwch data neu golli data

- Cyrchwyd a dilëwyd data'r Brifysgol gan berson anhysbys.
- Mae achos o ladrata o'r Brifysgol, sy'n arwain at ddwyn cyfarpar cyfrifiadurol heb ei amgryptio neu ddogfennau ar ffurf copïau caled sy'n dal data personol.
- Mae gliniadur heb ei amgryptio sy'n dal data personol yn mynd ar goll.
- Seiberdroseddu, er enghraifft ymosodiadau meddalwedd wystlo.
- Adroddwyd am achos o dorri'r Ddeddf Diogelu Data wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) ac mae'n destun craffu pellach gan yr ICO.

### 4.7 Mae person anghymwys yn gweithredu fel ymddiriedolwr

- Unrhyw berson sy'n gweithredu fel ymddiriedolwr neu uwch-reolwr er ei fod yn anghymwys i ddal y rôl honno.

### 4.8 Ymchwiliad gan Gorff Rheoleiddio

- Mae'r Brifysgol yn destun ymchwiliad swyddogol gan reoleiddiwr arall (e.e. Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC), Fisâu a Mewnfudo y DU (UKVI)).

### 4.9 Problemau Mawr o ran Llywodraethu

- Holl ymddiriedolwyr y Brifysgol yn ymddiswyddo ar yr un pryd, sy'n golygu na all weithredu.
- Mae'r ymddiriedolwyr neu uwch-aelodau staff yn destun camau cyfreithiol, mewn cysylltiad â'r Brifysgol neu eu rôl ynddi.
- Mae'r Is-ganghellor, sef Swyddog Atebol y sefydliad, wedi cael ei atal dros dro.

### 4.10 Digwyddiadau sy'n ymwneud â phartneriaid

- Mae un o bartneriaid cyflawni'r Brifysgol wedi rhoi'r gorau i weithredu ac mae hyn wedi atal y Brifysgol rhag darparu cymorth i'w buddiolwyr.

Mae tabl enghreifftiau'r Comisiwn Elusennau o'r hyn y dylid adrodd amdano wedi'i atodi fel Atodiad A.

## 5. Polisïau a Gweithdrefnau Perthnasol

Mae gan y Brifysgol nifer o bolisïau a gweithdrefnau sy'n cynorthwyo wrth nodi digwyddiadau difrifol. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol, ond nid ydynt yn gyfyngedig iddynt:

- Rheoliadau a pholisïau ariannol, gan gynnwys
  - Polisïau atal gwyngalchu arian ac atal ariannu terfysgaeth
  - Y polisi gwrth-dwyll
  - Y polisi cydymffurfio â Deddf Cyllid Troseddol 2017
  - Y polisi a'r fframwaith atal llwgrwobrwyo
- Polisi Prevent
- Y polisi ar ddiogelu data a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)
- Hysbysiadau preifatrwydd
- Gweithdrefnau cwynion
- Gweithdrefnau disgyblu
- Polisi Chwythu'r Chwiban (Datgelu er Lles y Cyhoedd)
- Polisïau a gweithdrefnau Adnoddau Dynol.

## 6. Sut i adrodd am ddigwyddiad

Cyn gynted ag y bydd yn rhesymol ymarferol a chyn gynted â phosib, adroddwch am y digwyddiad wrth Ysgrifennydd y Cyngor drwy e-bostio L.A.Woollard@abertawe.ac.uk. Os bydd y mater yn ymwneud â thwyll neu os gall arwain at golledion ariannol sylweddol i'r elusen, bydd Ysgrifennydd y Cyngor yn cysylltu â Chadeirydd y Cyngor a Thrysorydd y Brifysgol ac yn penderfynu a yw'r digwyddiad yn un difrifol y dylid adrodd amdano wrth y Comisiwn Elusennau ai peidio. Bydd Ysgrifennydd y Cyngor yn adrodd am ddigwyddiadau difrifol wrth yr Uwch-dîm Arweinyddiaeth hefyd. Os bydd Ysgrifennydd y Cyngor yn penderfynu y dylid ymdrin â'r digwyddiad yn unol ag un o bolisïau'r Brifysgol neu weithdrefn wahanol hefyd, neu yn lle hynny, gan gynnwys rhoi gwybod i CCAUC, Action Fraud, yr ICO neu eraill, bydd yr unigolyn sy'n cyflwyno'r adroddiad yn cael ei hysbysu am y camau ychwanegol i'w cymryd.

Bydd Ysgrifennydd y Cyngor yn hysbysu'r unigolyn a wnaeth adrodd am y digwyddiad, os yw adroddiad wedi'i anfon i'r Comisiwn Elusennau. Rhaid i'r unigolyn adrodd am newidiadau neu newyddion sy'n ymwneud â'r digwyddiad wrth Ysgrifennydd y Cyngor, a fydd yn rhoi gwybod i'r Comisiwn Elusennau am newidiadau sylweddol neu arwyddocaol.

## 7. Cyfrinachedd

Mae'r Brifysgol yn ymrwymedig i gadw cyfrinachedd a hyd eithaf ei gallu, bydd yn cadw hunaniaeth unigolyn sy'n adrodd am ddigwyddiad difrifol drwy'r weithdrefn hon yn gyfrinachol. Yn ogystal, gall unigolion adrodd am ddigwyddiad yn ddienw. Fodd bynnag, efallai y bydd hyn yn golygu na fydd modd i'r Brifysgol ymchwilio'n llawn i'r mater mewn modd mor effeithiol ag y byddai'n ymchwilio i adroddiad agored.

## 8. Monitro digwyddiadau y mae’n rhaid adrodd amdanynt

Bydd y Swyddfa Lywodraethu'n cadw cofnod o'r holl ddigwyddiadau sy'n gymwys i'w hystyried yn ddigwyddiadau y mae’n rhaid adrodd amdanynt a chaiff adroddiad ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg ym mhob cyfarfod ac i'r Cyngor pan adroddir am ddigwyddiadau o'r fath . Caiff y cofnod llawn ei adolygu'n achlysurol i nodi a oes patrymau o ddigwyddiadau difrifol y dylai'r Brifysgol fynd i'r afael â hwy.

## 9. Rhagor o wybodaeth

Mae'r Comisiwn Elusennau wedi cyhoeddi canllawiau ar adrodd am ddigwyddiadau difrifol yn: https://www.gov.uk/guidance/how-to-report-a-serious-incident-in-your-charity

Gellir cael rhagor o wybodaeth a chanllawiau cyffredinol ynghylch manylion y gweithdrefnau drwy e-bostio Ysgrifennydd y Cyngor: L.A.Woollard@abertawe.ac.uk.

| | |
|---|---|
| **Corff cymeradwyo:** | Y Cyngor |
| **Dyddiad Cymeradwyo:** | 5 Gorffennaf 2021 |
| **Cyswllt:** | Louise Woollard, L.A.Woollard@abertawe.ac.uk |
| **Statws:** | Newydd – 17 Mehefin 2021 |
| **Adolygwyd:** | Hydref 2022 |
| **Cymeradwywyd gan y Cyngor:** | 28 Tachwedd 2022 |
| **Dyddiad yr Adolygiad Nesaf:** | Tachwedd 2023 |